ATODLEN 1

GORCHMYNION ETC. SY'N YMWNEUD Â GOFALU AM BLANT

Penderfyniadau mewn perthynas ag addasrwydd P i ddarparu gofal

21. Mewn perthynas â chofrestru cartref plant—

(a) gwrthod cais P i gofrestru o dan adran 13 o Ddeddf Safonau Gofal 2000,

(b) canslo cofrestriad P o dan adran 14, 20(1) neu 20(A) o Ddeddf Safonau Gofal 2000,

(c) canslo cofrestriad unrhyw berson o dan adran 14, 20(1) neu 20(A) o Ddeddf Safonau Gofal 2000 mewn perthynas â chartref plant y mae P wedi bod yn ymwneud â'i reoli, neu y mae gan P unrhyw fuddiant ariannol ynddo, neu

(d) gwrthod cais P i gofrestru neu ganslo cofrestriad P o dan Orchymyn Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol Personol (Ansawdd, Gwella a Rheoleiddio) (Gogledd Iwerddon) 2003(**1**).

(**1**) O.S. 2003/431 (G.I. 9).